


# Cylchlythyr Adran Llyn y Fan

## Croeso i Gylchlythyr Nadolig 2025 Adran Llyn y Fan

Rydym ni'n cwrdd bob pythefnos ar nos Fercher

yn Neuadd Llanwrda

o 6pm i 7pm

Croeso cynnes i bawb!

Mwynhewch ddarllen ein hanes ni!

***Nos Fercher Hydref 8fed***

*Ar y noson hon, daeth Alma o Urdd Myrddin allan i'r Adran a cynnal twmpath gyda ni. Dysgon llawer o ddawnsfeydd newydd a cawsom ni lawer o hwyl. Roedden ni wedi dawnsio dawns Jac y Do a Cylch y Cymry. Dwi'n gobeithio bydd Alma yn dod eto i wneud hyn a chael mwy o hwyl a sbri. Roeddwn i'n teimlo'n gyffrous ac yn llawn egni. Roedd rhai o'r merched ddim yn hoffi dal llaw y bechgyn. Ond roedd pawb wedi cael hwyl ac yn gwybod y dawnsfeydd erbyn diwedd y noson.*

Gan Dyfan a Charlie









***Nos Fercher Hydref 22ain***

*Ar y noson hon, roedd pawb wedi dod i'r Adran ac roedden ni wedi addurno pwmpenni gyda sticeri hwyl a beiros lliwgar. Roedd rhai o'r merched yn dod i'r ford a dwyn rhai o'r sticeri! Roedd y pwmpenni yn edrych yn wych ac roedd cystadleuaeth addurno i weld pwy oedd gyda'r pwmpen gorau. Yr enillwyr oedd Gruff, Holly, Medi a Ffion. Roedd yr enillwyr wedi cael paced o losin blasus!*

*Calan Gaeaf Hapus i bawb!*

Gan Ifan








ATTENTION
PLEASE KEEP
EMERGENCY DOORS
CLEAR
AT ALL TIMES
OUTBACK OUTFITTERS
COFIWCH
DDYFFRYN
TYWI



***Nos Fercher Tachwedd 12fed***

*Daeth Alma nôl aton ni ond i wneud gwahanol ddawnsio y tro hyn. Roedd hi yn gwneud disgo tawel a phawb yn dawnsio. Roedd rhaid gwisgo clustffonau i glywed y miwsig. Roedd y cerddoriaeth i gyd yn Gymraeg. Ein hoff gân oedd Tecwyn y Tractor Bach Coch. Ar y diwedd roedd Alma wedi dysgu dawns Mistar Urdd i ni. Roedd pawb yn hapus wrth gadw'n heini a gwrando ar gerddoriaeth.*

Gan Mared a Lowri


YSGOL
LLANWRDA
EXIT
ONLY






***Nos Fercher Tachwedd 26ain***

*Heno roedden ni wedi dysgu i ganu carolau Nadolig yn yr Adran. Roedd Fflur wedi dysgu i ni i ganu carolau fel Tawel Nos a chaneuon hwyl fel Tri Gwr Doeth, Ebol Bychan a Tinsel ar y Goeden. Roedd pawb yn canu'n ardderchog ac roedd pawb yn mwynhau mas draw gyda'r gerddoriaeth fel ein bod yn barod i ddathlu'r Nadolig!*

Gan Ioan





---

***Nos Fercher Rhagfyr 10fed***

*Heno, roedd ein parti Nadolig! Hwre! Aethom ni i Xcel Bowl yng Nghaerfyrddin i gael ein parti. Roedd pawb wedi bowlio 10 mewn grwpiau i bump ac roedd pawb wedi mwynhau. Cawsom ni fwyd ar ôl y bowlio. Roedd pawb wedi mwynhau mas draw a phawb yn siarad llawer gyda ein gilydd. Roeddwn i gyda fi ffrindiau yn bowlio sef Cian, Gruff, Twm ac Iago. Roedd yr atmosffer yn wych ac roedd pawb yn teimlo'n gyffrous.*

Gan Iolo

---


Rules of Play
HOWDEN


Nadolig
Llawen
25


COME OVER
To The
WELSH SIDE
WE'VE GOT
Dragons









---

DIOLCH

Diolch yn fawr iawn i’r arweniyddion sy’n trefnu’r Adran i ni ac am roi llawer o brofiadau gwych i bawb. Mae mynd i’r Adran yn llawer o hwyl!

Diolch Fflur, Mared T, Liz, Catrin, Mared R, Mari, Rhian, Marian, Martha ac Abner!

## Dyddiad i'ch dyddiadur!




Cadwch y dyddiad yn glir a dewch i weiddi "Llinell" neu "Tŷ" yn Bingo Adran Llyn y Fan!


ADRAN LLYN Y FAN
BINGO
NOS FERCHER 25 MAWRTH
Neuadd y Pentref, Llanwrda
I ddechrau am 6:30yh
Galwr: Angharad Rees
£5 y llyfr
Elw at Gronfa Ffrindiau Ysbyty Llanymddyfri
Dewch yn llu!